**PWYLLGOR PERSONÉL**
**(Cyfarfod Eithriadol)**

**13 Ionawr 2021**

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd ML Evans, Cynghorydd P Harries (Ex-Officio), Mrs J James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney (heb hawliau pleidleisio), Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

[Ymunodd y Cynghorydd PJ Morgan â'r cyfarfod yn ystod ystyried y Rhybudd o Gynnig. Hysbysodd y Cynghorydd ML Evans y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod am 10.30am.]

(Cyfarfod rhithiol: 10.00a.m. – 11.25a.m.)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Dr R Heath-Davies. Hysbysodd y Cynghorydd PJ Morgan ei fod yn cael trafferth i ymuno â'r cyfarfod.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**3. Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd P Kidney:**
**Bod yr Awdurdod yn ystyried gwasanaeth mentor i staff yr Awdurdod, i drafod unrhyw broblemau neu bryderon, yn sgîl y pwysau ychwanegol arnynt oherwydd y pandemig presennol" a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 04/12/20**
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Kidney i'r cyfarfod, gan ei wahodd i gyflwyno'i Rybudd o Gynnig. Eglurodd bod ei bryder am les y staff, yn arbennig yn yr amgylchiadau sydd ohoni, wedi deillio o'i brofiadau ei hun mewn amgylchedd gwaith anodd rai blynyddoedd yn ôl pan gafodd ei hun mewn sefyllfa heb neb i droi ato am gymorth. Felly roedd am i'r Awdurdod sefydlu gwasanaeth hyd braich lle gallai unrhyw aelod o staff oedd yn teimlo dan bwysau roi galwad ffôn i Aelod a mynegi ei bryderon mewn amgylchedd cyfrinachol. Gallai'r Aelod wedyn farnu a ddylid dwyn y mater i sylw'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Adnoddau Dynol. Roedd yn sylweddoli y gallai'r staff gysylltu â'r unigolion hynny yn uniongyrchol, ond barnai na fyddai rhai pobl yn dymuno gwneud hynny, ac y byddai'r gwasanaeth hwn yn fodd o roi cefnogaeth iddynt. Cynigiodd i weithio law yn llaw ag aelodau perthnasol o'r staff i ddatblygu manylion y cynllun, a rhagwelai y byddai'r cynllun yn cael ei adolygu ar ôl cyfnod o

6 mis. Ei obaith oedd na fyddai unrhyw atgyfeiriadau, ond ni fyddai hynny'n golygu bod y fenter wedi methu. Hefyd roedd am bwysleisio nad oedd ei Rybudd o Gynnig yn feirniadaeth o unrhyw fath o'r Adran Adnoddau Dynol ond yn hytrach yn fodd o estyn cymorth ychwanegol i gydweithwyr, ac roedd yn bendant o'r farn bod gwir angen am hynny.

Rhoddodd y Rheolwr Adnoddau Dynol gyflwyniad wedyn oedd yn amlinellu'r gwasanaethau a gynigir gan yr Awdurdod ar hyn o bryd i bob aelod o staff ac aelodau agos o'u teuluoedd drwy'r sefydliad Gofal yn Gyntaf. Ymhlith y gwasanaethau hyn mae llinell ffôn ddi-dâl a chyfrinachol 24/7 sy'n rhoi gwybodaeth a chymorth; gwybodaeth ar-lein drwy eu porthol Zest (porthol iechyd a ffitrwydd personol) a gwefannau Ffordd o Fyw (cyngor ar amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â'r cartref, gwaith a iechyd) yn ogystal â chyfres o gweminarau dyddiol. Hefyd gallai'r staff gael mynediad i wasanaeth Cwnsela annibynnol. Ychwanegodd bod y cyngor a roddir yn annibynnol, yn gyfrinachol, ac a roddir gan ymgynghorwyr profiadol sydd wedi'u hyfforddi yn y gwaith.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn ogystal yn cydnabod Unsain, Undeb y Gwasanaeth Cyhoeddus, sydd ag amrywiol bolisïau sy'n ei gwneud yn glir beth ddylid ei ddarparu ar gyfer y gweithwyr, a'r hyn y dylai'r gweithwyr ei ddisgwyl.

Roedd rhai Aelodau wedi canmol y Cynghorydd Kidney am ei onestrwydd ac yn cytuno y byddai sawl un oedd yn bresennol wedi wynebu anawsterau tebyg, yn enwedig yn y blynyddoedd a fu pan nad oedd y mecanweithiau sydd ar gael heddiw, megis cwnsela, yn bodoli. Roeddent yn falch o ddeall bod y gwasanaethau hyn wedi bod ar gael gan yr Awdurdod ers tro, ond yn cytuno bod angen efallai rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau sydd ar gael. Lleisiwyd gair o rybudd nad oedd yr Aelodau wedi'u hyfforddi yn y materion hyn ac nad oedd mynediad ganddynt eu hunain i'r ffynonellau cymorth. O edrych ar y Disgrifiadau a Manylebau Rôl Aelod, roedd un Aelod o'r farn nad oedd gweithredu fel Mentor yn un ohonynt. Hefyd mynegwyd pryder y gallai cyfranogiad yr Aelod danseilio rheolwyr a hefyd yn gwrthdaro â'u rolau ar y Pwyllgorau Cwyno, Disgyblu ac Apeliadau, ac felly yn peryglu eu hannibyniaeth fel Aelodau o'r Awdurdod.

Serch hynny, dywedodd Aelod arall bod pobl, o ganlyniad i'r pandemig, yn teimlo'r angen i ddod o hyd i grŵp cymorth lle gallent gael sgwrs am eu problemau. Awgrymwyd ei bod yn bosibl i'r Aelodau weithredu yn y cyswllt hwnnw a bod yn glust i wrando, yn arbennig gan fod ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth o'r materion. Hefyd awgrymwyd y gallai'r Awdurdod ystyried system 'cyfeillio' lle gallai'r staff gefnogi ei gilydd drwy gael sgwrs gyda chydweithwyr eraill.

Roedd Aelodau eraill wedi nodi bod y cyflwyniad yn cyfeirio at nifer o asiantaethau proffesiynol, ond yn cytuno â'r Cynghorydd Kidney nad oedd drwg mewn cynnig gwasanaeth sydd y tu allan i'r strwythurau rheoli presennol. Cynigiwyd felly i dreialu bod yr Aelodau yn cynnig gwasanaeth 'clust i wrando' ar gyfer y staff. Gan nad oedd y mecanwaith manwl na hyd a lled y gwasanaeth yn glir, awgrymodd y Prif Weithredwr bod swyddogion yn gweithio gyda'r Cynghorydd Kidney a Chadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor i ddatblygu'r manylion, a bod y cynnig fydd yn deillio o hynny yn dod yn ôl gerbron y Pwyllgor. Cytunodd y cynigydd i ymgorffori'r awgrym hwn yn ei gynnig, ac eiliwyd hynny.

**PENDERFYNWYD** bod grŵp bach o staff ac Aelodau yn datblygu'r egwyddor o wasanaeth 'clust i wrando' gan yr Aelodau a bod hyn yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y Pwyllgor Personél am gytundeb terfynol.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 heb eu diwygio. |